

Ysgol Esgerdawe

Yn ôl y cofnodion, cynhaliwyd pwyllgor gan Aelodau o Fwrdd Ysgol Pencarreg yn Ysgol Esgerdawe ar y cyntaf o Fehefin. Penodwyd David Lewis yn Fonitor sefydlog. Yn ystod y mis hwnnw, derbyniwyd naw o blant yn ychwanegol, yn gwneud y nifer yn drigain a deg. Dyma'r nifer mwyaf a fu ar y Gofrestr yn hanes yr ysgol. Ni châi'r plant eu haddysg yn rhad, ond telid ceiniog, dwy neu dair, yn ôl oed y plentyn, a hynny bob bore Llun. Ceir cofnod sy'n nodi fod pum punt, un swllt ar bymtheg a cheiniog wedi'u derbyn erbyn diwedd y tymor cyntaf. Trosglwyddai'r athro yr arian i'r Bwrdd a fyddai'n cyfarfod yn rheolaidd. I gynnal yr ysgol, ceid arian o ffynonellau eraill hefyd. Derbynnid o gyllid y dreth, ceid grant gan y Bwrdd Addysg a gwerthid llyfrau ysgrifennu i'r plant ar gyfer eu gwaith cartref.

Yn y cyfnod hwnnw, rhoddid pwyslais arbennig ar ddysgu'r tri phwnc sylfaenol. Cyfeirir atynt fel y tair 'R'. Ceid ychydig o Ddaearyddiaeth, Cerddoriaeth, Arlunio a Gwnïo hefyd. Cedwid cofnodion manwl a destlus o hanes yr ysgol o'r cychwyn ac fe'u hysgrifennwyd yn Saesneg am flynyddoedd. Dyma gofnodion eraill perthynol i'r tymor cyntaf:

June 13th—Mrs. Airey temporarily engaged as Sewing Mistress—25 girls in sewing class this day.

June 25th—Mr. Jones, Caemawr visited and spoke to me respecting the proposed pump.

July 16th—55 children present throughout the day. Classes worked well. Examined all classes in Reading; only one child who does not know her alphabet, has been away from School eight weeks.

July 23rd—The curate in charge at Llansawel visited the School this day.

Aug. 18th—The Pupil Teacher had leave of absence this week —School thinly attended, a very wet week. School closed for harvest holidays.

Ailagorwyd yr ysgol ar Fedi 10fed. Dim ond pedwar o blant,

yr athro a'r monitor oedd yn bresennol. 'Roedd yn amlwg nad oedd y mwyafrif o'r ardalwyr wedi cael eu cynhaeaf i ddiddosrwydd. Aelodau'r Bwrdd Ysgol a drefnai'r gwyliau yn flynyddol. Yn ôl y cofnodion canlynol, nid oedd y gwyliau a'r cynaeafau yn cydredeg yn rhy dda:-

Sept. 14th—The School has been very thinly attended this week, the children being employed gathering in the harvest.

Sept. 21st—Small school again this week, harvesting still going on.

Oct. 8th—A larger number of children present today.

Cofnod pwysig i'r athro i'w gadw mewn cof oedd hwn:-

Oct. 13th—Received notice from the Clerk of Pencarreg Board of the 'Audit of Accounts'—at the Workhouse, Lampeter at 11.30 a.m. on Tuesday, 23rd Oct. 1877.

Hyd yn oed yn y cyfnod cynnar hwnnw, ceid perthynas agos rhwng yr ysgol a Chapel yr Annibynwyr, ergyd carreg i ffwrdd. Dyma gofnod a ddengys hynny'n amlwg iawn ar adeg y Cyfarfodydd Diolchgarwch.

Oct. 17th—Half-holiday. Children attended at Esgerdawe Chapel. Master and 28 children opened the Meeting by singing "Birds" (song), "The Kine" (Round) and "London's Burning" (Round).

Wele enghreifftiau o ddigwyddiadau diddorol eraill:-

Oct. 23rd—School closed for day; Master went to Lampeter to attend the Audit of the Board accounts.

Nov. 2nd—A meeting of the Board was held at this School this afternoon at 3 o'clock. Miss Davies appointed as Sewing Mistress. Members of the Board present—Mr. Rees Evans, Mr. T. Thomas, Mr. Lloyd and Mr. David Jones, Clerk of Board. The children of the School were put through some exercises and sang three songs. The members expressed themselves satisfied with what they saw and heard.

Nov. 17th—New Books for Standard I and Infants and small Grammars and Geographies for Standards II, III, IV, V.

Nov. 24th—Dictation Books used for the first time this week.

Dec. 10th—Mr. D. Davies, Velindre, Chairman kindly sanctioned the presenting of some books as prizes to the children.

Dec. 20th—Examined Standards I-V for prizes. Result as under:-

Std. I. 1st prize—Eleanor Thomas
2nd prize—John Davies
Std. II. lst prize—William Jones
2nd prize—Margaret Thomas
Std. III. 1st prize—Thomas Jones
2nd prize—William Morgans
Std. IV. Hannah Evans
Std. V. William Thomas

Jan. 15th—Examined Classes I and II in Standard Subjects—the new scholars are very far behind those who have been in school for some time.

Jan. 16th—Gave out the Prizes to the Boys and Girls who had gained them.

Jan. 17th—The Sewing Mistress appears to succeed very well with her class.

Feb. 14th—Made out a new Time Table.

Feb. 15th—Drew out a List of the Scholars qualified by attendance to be presented to H. M. Inspector in April.

March25th—Received Notice of the Examination of Pupil Teacher and of the Examination of the Scholars in this School. The former to take place at Lampeter School on Saturday, March 30th, and the latter on Wednesday, April 10th, 1878, at this School.

Ceir cofnod ar y ddegfed o Ebrill, 1878 yn nodi enwau'r caneuon a ddysgwyd oddi ar agoriad yr ysgol, tua blwyddyn yn gynharach. Saesneg oedd iaith yr ysgol. Felly, caneuon Saesneg a ddysgwyd i'r plant.

Dyma'u teitlau:-

1. Birds. "O the sunny time."
2. School. "When bright the morn is breaking."
3. Lightly Row. "Lightly Row."
4. Round. "The kine, the kine."
5. The Robin. "In the tall elm tree."
6. Round. "London's Burning."
7. Father's Return. "All the day long."
8. Flowers. "Flowers, wild wood flowers."

April 10th—Annual Examination by H. M. Inspector
W. Williams, Esq.

| | |
|---|---|
| Presented in Standards: | 45 |
| Infants | 3 |
| | 48 |

The Inspector requested the children to sing "School". The master chose "Birds" as being the best in the list of 8 songs presented.

April 11th—Result of Examination. The total number of passes was: 34 in Reading, 33 in Writing and 28 in Arithmetic.

The names of the children who sat the Examinations are as follows:-

Lewis Jones
William Evans
Evan Jones
John Davies
Evan Jones
James Morgan
John Thomas
John Morgans
Simon Jones
Isaac Jones

Thomas Edwards
Anthony Edwards
Morgan Morgans
Morgan Jones
Rachel Jones
Margaret Evans
Mary Jones
Mary Thomas
Anne Davies
Mary Williams

| | |
|---|---|
| Evan Morgans | Mary Jones |
| David Morgans | Anne Jones |
| William Morgans | Eleanor Thomas |
| David Williams | Margaret Williams |
| Joseph Edwards | Jemima Morgans |
| David Thomas | Rachel Evans |
| William Jones | Margaret Thomas |
| Rees Davies | Anne Thomas |
| Daniel Abel | Jemima Evans |
| Thomas Jones | Sarah Thomas |
| David Jones | Anne Thomas |
| Morgan Evans | Hannah Evans |
| William Morgans | Margaret Thomas |
| Benjamin Jones | James Williams |

Wrth sylwi ar y rhestr hon, canfyddwn mai enwau a chyfenwau cyfarwydd oedd ar y plant. Ni ellir gweld un enw estronol yn eu plith. Er hynny, nid iaith eu mamau oedd ar eu min yn ystod oriau ysgol.

Ar y ddeuddegfed o Ebrill, 1878 ceir crynodeb o'r Adroddiad cyntaf a dderbyniwyd oddi wrth yr Adran Addysg wedi ymweliad W. Williams, Arolygwr ei Mawrhydi. Dengys yr Adroddiad fod yr ysgol newydd hon yn llwyddiant mawr o dan ofal Mr. Robert Airey.

*Summary of the Inspector's Report, as communicated by the Education Department*

"This new school has been brought into satisfactory order and discipline, and appears to be very fairly instructed. The Scholars, a majority of whom were presented low, passed, on the whole, a very fair examination in the elementary subjects. Grammar and Geography had been commenced but the knowledge shown was not sufficient for the grant.

Another set of Reading Books is required. The premises are good."

The Managers must check the (books) Registers occasionally. I am to request you to make a census of the population within two miles of your school, and to inform My Lords of the results with the view to the consideration of a grant under Article 19(d).

D. Jones
*Clerk of the Board*

Dibynai'r grant a delid gan y Bwrdd Addysg ar ddau beth pwysig—y safon a gyrhaeddid gan y disgyblion a chyflwr yr ysgol. 'Roedd Rheolwr gan bob ysgol ac 'roedd ganddynt gryn awdurdod yn eu dwylo. Fe'u cyfrifent eu hunain yn bobl eithriadol bwysig. Ambell dro, ceisient ymyrryd yng ngwaith yr ysgolfeistr, gan anghofio mai eu hunig gyfrifoldeb oedd gofalu am gyflwr yr adeilad.

Yn y cyfnod cynnar hwnnw, 'roedd dysgu gwau a gwnïo yn anhepgor i ferched. Peth gwerthfawr i ferch oedd cael ei hyfforddi i wau hosanau a chyweirio dillad y teulu. Felly, trefnid gwers i'r perwyl hynny ar ddau brynhawn yr wythnos.

Anghyson iawn oedd presenoldeb y plant yn y Gaeaf oherwydd yr hin anffafriol. Bywyd caled ydoedd—cerdded milltiroedd i'r ysgol drwy'r gwynt a'r glaw, gwlychu hyd y croen a sychu o flaen y stof. Ni cheid cyfleusterau na moethau—dim bws na modur, dim llaeth, dim cinio blasus. 'Roedd y sefyllfa'n dra gwahanol i'r hyn ydyw yn ein dyddiau ni. Yn y Gwanwyn, cedwid y plant gartref i gynorthwyo'u rhieni ar y meysydd—aredig, llyfnu a hau. Nid gwaith hawdd oedd dilyn yr aradr a'r og a rhoi ymborth i'r ceffylau wedi diwrnod hir o gerdded y tir âr.

Ni wyddys dim o hanes personol y Prifathro cyntaf. Ymddengys iddo ymroddi'n llwyr yn ei waith, gan osod seiliau cadarn i'r system addysg yn yr ysgol wledig hon. Dim ond am flwyddyn y bu yno oherwydd ymadawodd ddechrau Mai, 1878.

May 5th—Mr. Robert Airey resigned this day, having been appointed master of the Coedmore Board School in this parish.

D. Jones
*Clerk to the Board*

## YR ADEILADAU A PHETHAU ALLANOL

Saif yr ysgol hon ym mhentref Esgairdawe, neu, fel y'i gelwir ar lafar—Esgerdawe. Cafodd yr enw hwn am ei fod wedi'i leoli ar ochr mynydd bychan, ac afon Tawe'n ymdroelli'n araf heibio'i odre dan ganu salm o hiraeth ar ei thaith drwy'r cwm. Yn is i lawr fe una'r Tafwys fechan â hi a chydlifant yng nghwmni afonydd eraill ar eu siwrnai droellog i'r môr.

'Rôl adeiladu'r ysgol ym 1877, 'roedd mewn cyflwr da fel y dengys Adroddiad cyntaf yr Arolygwr. Wrth ei chodi, defnyddiodd y penseiri gerrig a choed cadarn. Saif hyd y dydd heddiw ar ôl gwrthsefyll stormydd a thymhestloedd gaeafau hirion. Pe medrai'r cerrig yma lefaru, caem wledd o atgofion hyfryd am y dyddiau gynt!

Nid oes i'r adeilad le cysgodol er ei fod ar esgair y mynydd. Daw gwyntoedd geirwon i'w herio o gyfeiriad Storom a Gwarcoed. Mae'r prif-adeilad yn hir, ar ffurf pedrongl. Yn y pen uchaf, nesaf at y Capel, ceir ystafell y plant lleiaf, yn y canol—ystafell y disgyblion hynaf a'r ystafell ddillad yn y pen isaf.

Dyma fesuriadau'r ddwy brif ystafell:-

*Ystafell y Babanod:*
11 troedfedd 5 modfedd x 16 troedfedd 6 modfedd.

*Ystafell y Plant Hynaf:*
37 troedfedd 10 modfedd x 16 troedfedd 6 modfedd.

Oddi amgylch y mae'r Iard sy'n mesur 36 llathen x 32 llathen. Ceir mur o'i chwmpas a thu ôl i'r prif adeilad lleolwyd y tŷ glo a'r tai-bach—un i'r merched ac un i'r bechgyn.

Ni welir unrhyw achwyniad am gyflwr yr adeilad yn ystod yr un mlynedd ar ddeg cyntaf. Eithr pan ymwelodd Arolygwr yr Adran Addysg â'r ysgol ym mis Ebrill 1888 cawn achwyniad hollol afraid. 'Roedd yn anfodlon iawn pan welodd lawr yr ystafelloedd yn wlyb, a hynny ar fore Llun. Mae'n debyg i'r Prifathro roddi gwersi i rai disgyblion hyd yr hwyr y nos Sadwrn flaen-

orol. Nid oedd hyn yn unol â'r Amserlen ac ni chofnodwyd yr eisteddiad yn y Llyfr Cofnodion na'r Gofrestr. Felly, erfyniodd yr Arolygwr ar i'r Prifathro gadw at yr Amserlen. Drwy hyn, galluogai'r gofalwr i wneud ei ddyletswydd ar yr amser priodol. Gyda pheth amheuaeth y cymeradwywyd y grant y flwyddyn honno.

Yn ôl yr Adroddiad a anfonodd W. Williams, Ysw., Arolygwr ei Mawrhydi i'r Bwrdd Addysg ar y 14eg o Chwefror, 1890, canfyddir bod y stof a wresogai'r adeilad yn dechrau peri trafferth. Daeth hyn i'r amlwg pan ymwelodd T. Jones, Ysw., yr Is-Arolygwr â'r ysgol tua diwedd Ionawr, a hynny'n hollol ddirybudd. Dyma gynnwys yr Adroddiad hwnnw:-

Mr Jones found that the Teacher had been obliged to put out the fire because the stove smoked so badly. The School Board should immediately attend to this matter and endeavour to make the stove draw properly as it is intolerable that the School should be without fire when its stove does not draw.

D. Jones
*Clerk to the Board*

Wele gyfeiriadau pellach yn ymwneud â gwelliannau angenrheidiol:-

17.4.1891—No School Today (Friday) as the plasterers are at work in the schoolroom repairing the roof.

11.11.'91—A very stormy day. The chimney smoked dreadfully, in consequence the room was full of smoke and sulphur. Impossible to work in such air. No fire in school this afternoon. Obliged to leave it go out!! Very cold!!

9.12.'91—The Chairman of the Board called today to see what other arrangement could be made for warming the room, the present method not only being inefficient, but inimical to the health of the children.

Jan. 1892—The stove having been replaced in a different position, works well; the room is now comfortable.